**Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council**

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fercher 09.03.22, 7yh yn Y Ganolfan, Llwyngwril** **Yn dilyn rheolau diogelwch Cofid-19**

Presennol: **Kevin Goodchild** - Cadeirydd - (KG), **Keith Carroll** - Is-gadeirydd (KC), **Huw Davies** (HD), **Dylan Thomas** (DT), **Jenny Warne** (JW), **Geraint Edwards** (GE), **Geraint Micah** (GM), **David Griffiths** (DG), **Ian Williams** (IW), **John Griffiths** (JG), **Louise Hughes** (Cynghorydd Sirol), **Debbie Taylor-Bond -** Clerc - (DTB).

1. **Ymddiheuriadau**: **Dim.**
2. **Croeso'r Cadeirydd**: Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, gan gynnwys Glenda Edwards, cyn-glerc y cyngor, oedd wedi mynychu'r cyfarfod i gynorthwyo Debbie Taylor-Bond gyda'r gwaith archwiliad 2021/22.
3. **Cadarnhau'r Cofnodion Blaenorol (09.02.22)**: Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod 09.02.22 fel rhai cywir. **Cynnig –** Geraint Edwards **Eilio –** Jenny Warne **Arwyddwyd –** Kevin Goodchild.
4. **Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol (09.02.22):**
   - **Prosiectau Cymunedol Bach –** Cadarnhawyd fod cais y Cyngor Cymuned am grant cymunedol bach wedi bod yn llwyddiannus, a bod £250 tuag at gost mainc newydd wedi'i gymeradwyo. Gofyniad y grant yw i'r prosiect gael ei gyflawni yn y flwyddyn ariannol hon. Cytunodd JG i gasglu'r fainc oddi wrth y cyflenwr lleol – Dylan Jarman. Cytunodd yr aelodau i anfon siec iddo ar ol derbyn y fainc.
   - **Newid Cyfrif Banc –** cyfrif banc newydd hefo NatWest wedi ei agor. 'Roedd banc NatWest wedi darparu dau gerdyn debyd (i Debbie Taylor-Bond a Kevin Goodchild) cytunwyd nad oedd angen y rhain ac y byddent yn cael eu dychwelyd i'r banc. Byddai'r cyfrif newydd yn cael ei ddefnyddio ar yr un sail â chyfrif HSBC, a rheolau sefydlog y Cyngor Cymuned - gyda thri llofnod ei angen ar bob siec. Cytunwyd i barhau i ddefnyddio'r cyfrif HSBC hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol a defnyddio'r cyfrif newydd yn 2022/23. Mae nifer o anfonebau heb eu talu ond mae angen eu talu cyn gynted â phosibl. **Gweithredu - DTB.**
   - **Tyrchod daear yn cae chwarae Llwyngwril –** cadarnhaodd GM fod y gwaith yma wedi ei gwblhau.
   - **Coeden Nadolig -** cadarnhaodd DTB fod cysylltiad wedi ei wneud â Mr Evans ynglŷn â derbyn anfoneb.
   - **QR Historypoints –** ymholiad ynglyn ag arwydd QR sydd wedi diflannu o giat yr Eglwys. Siaradodd GE â David Harrison ynglŷn â'r arwydd QR yma, pan gadarnhaodd fod y ffens/giât wedi eu paentio haf diwethaf, felly efallai na chafodd yr arwydd QR ei roi yn ôl. Cysylltwyd â Historypoints a byddant yn darparu arwydd newydd.
   - **Materion Priffyrdd** – Ymatebion wedi eu derbyn gan Adran Briffyrdd Cyngor Gwynedd
     - Difrod i wal ar ochr chwith ger Y Nant, Llwyngwril ➐ Adran Briffyrdd (CG) wedi cadarnhau bod peth o'r gwaith wedi'u gychwyn, ond fod mwy o waith i ddilyn.
     - Llinellau melyn dwbl - Adran Briffyrdd (CG) wedi cadarnhau fod y gwaith yma ar ei rhaglen waith.
     - Cyflwr y Llwybr i'r traeth – ar y rhaglen am adolygiad.
     - Ffordd yr Orsaf - maint y Brifforddd
     - Glanhau draeniau / sianeli – Adran Briffyrdd (CG) wedi cadarnhau fod hyn ar ei rhaglen waith.

5. **Gohebiaeth:**
   - **Un Llais Cymru** - Mae gofynion newydd ar gyfer Cynghorau Cymuned yn dod i rym, yn cynnwys "Adroddiad Blynyddol" - i gael ei gynhyrchu cyn gynted â phosibl ar ôl 1af o Ebrill 2022. Hefyd byd angen "cynllun hyfforddi" newydd - i'w gynhyrchu ar gyfer 5ed o Dachwedd 2022.
   - **Network Rail - Wal Derfyn rhwng Llwyngwril a Friog –** Simon Roberts, cynrychiolydd o Network Rail i fynychu cyfarfod y Cyngor Cymuned ym Mis Mehefin 2022. Cadarnhaodd Network Rail eu bod angen dod o hyd i gontractwr newydd a byddent yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor Cymuned yn eu cyfarfod ym Mis Mai. Cynrychiolydd o Fairbourne (M. Scott) i ysgrifennu at y Cyngor ynghylch cyflwr y rhwystrau/wal.
   - **Lansio Llwybr Cadfan -** 05.03.22 –fe fu i KC fynychu'r lansiant a hysbysodd y Cyngor o'r bwriad i ymestyn y daith Pilgramage o "Cadfan's Way" i Ynys Môn, a bydd y cam nesaf yn cynnwys Llwyngwril. Bydd y llwybr yn defnyddio'r llwybrau cyhoeddus presennol.
   - **Swyddog Cefnogi Cymunedol Newydd** ➐ Anna Lewis. Gwynn Evans i ymddeol ddiwedd Mis Mawrth 2022.
6. **Materion Cynllunio:**
   - **NP5/69/411 -** Tir ger The Nook, Llwyngwril. Codi ty annedd a thanc septig ➐ Dim sylwadau.

- ***Cynghorydd David Griffiths wedi datgan ddiddordeb (NP5/69/374A), ni chymerodd ran yn y drafodaeth ac aeth i sefyll ochr allan. Ffurflen buddiant personol wedi ei chwblhau ganddo.***

- **NP5/69/374A - Parth-y-Gwyddwch, Llwyngwril, LL37 2QN.**
  Addasu adeilad allanol presennol yn uned gosod un ystafell wely.
  Apel gan yr ymgeisydd yn gofyn i'r Cyngor Cymuned ystyried ysgrifennu llythyr i gefnogi'r cais, gan fod y Parc Cenedlaethol wedi gwrthod y cais yma.
  - ***Ail-ymunodd y Cynghorydd David Griffiths â'r cyfarfod.***

- **NP5/69/41D -** Tir gyferbyn â Mynwent y Crynwyr, Llwyngwril.
  Bu i'r Cyngor Cymuned wrthwynebu y cais yma ar 13/05/2021. Mae apêl wedi'i gyflwyno i Weinidog Cymru Cyf: APP/H9504/A/21/3282857 a gofynir am unrhyw sylwadau pellach i'w hanfon erbyn 30/03/2022. **Ni wnaed unrhyw sylwadau pellach, gan fod sylwadau gwreiddiol y Cyngor Cymuned heb newid.**

**7. Tâl Cynghorwyr 2022/23 (IPRW)**

Fel rhan o ofynion Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW) hysbyswyd pob Cynghorydd o'r arian y mae ganddynt hawl i'w dderbyn. Etholodd pob Cynghorydd i "optio allan" o dderbyn lwfans blynyddol o £150 a llofnodwyd y ffurflenni priodol. 'Roedd pawb yn gytun i optio mewn i'r dewis **"Penderfyniad 45"**- sy'n caniatáu costau teithio ar gyfer mynychu dyletswyddau'r Cyngor. **Cynnig:** Kevin Goodchild **Eilio:** Pawb yn gytun.

**8. Adolygwyd a chymeradwywyd dogfennau Polisi canlynol:**

- Asesiad Risg Cofid-19 - i'r Cyngor Cymuned allu ddefnyddio "Y Ganolfan"
- Cofrestr Asesu Risg y Cyngor Cymuned - 2022/23
- Cofrestr Asedau Sefydlog y Cyngor Cymuned - 09/03/2022
- Polisi Rhoddion y Cyngor Cymuned - 09/03/2022
- Dyletswydd Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau (Deddf yr Amgylchedd Cymru 2016) Adolygiad wedi ei wneud o Adroddiad y Cyngor Cymuned - 09/03/2022

**9. Adroddiad Ariannol**: Derbyniwyd Adroddiad Mis Chwefror 2022 yn gywir.

**Cynnig –** Huw Davies **Eilio –** Geraint Edwards **Arwyddwyd –** Kevin Goodchild.

Sieciau wedi eu harwyddo: Cyngor Gwynedd: £1,060.00 (100823) Torri gwair y cae chwarae
Geraint Williams: £89.21 (100822) Gwaith trydanol I oleuadau'r coed nadolig
Geraint Micah: £259.20 (100824) Torri gwair y llwybrau yn 2021 Sieciau wedi'u talu B Jones: £4,000.00 (offer ffitrwydd yn y cae chwarae).

**10. Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr:** Dim.

**11. Adroddiad y Cynghorydd Sirol:** Derbyniwyd adroddiad Louise Hughes.

**12. Unrhyw Fater Arall:**

- ***Geraint Micah a David Griffiths wedi gadael y cyfarfod rhag ofn y byddai gwrthdaro buddiannau posibl. Ffurflen Hysbysiad o Ddiddordeb Personol wedi eu cwblhau gan GM a DG***

a) **Dyfyniadau ar gyfer torri gwair 2022**. Derbyniwyd dau ddyfynbris ar gyfer torri gwair y cae chwarae â'r llwybrau cyhoeddus. Adolygwyd a chymeradwywyd y rhain gan y Cyngor Cymuned. Cae chwarae wedi ei ddyfarnu i Gyngor Gwynedd. Dyfarnwyd gwaith cynnal a chadw'r llwybrau cyhoeddus i D Griffiths. DTB i gadarnhau'r dyfarniadau.
**Cynnig:** Kevin Goodchild **Eilio:** Geraint Edwards

b) **Ni dderbyniwyd dyfynbris i dorri gwair y Cof Golofn.** Cytunwyd i anfon y dogfennau eto ar gyfer dyfynbrisiau ar gyfer torri gwair y Cof Golofn. **Gweithredu: DTB**.

- ***Dychwelodd Geraint Micah a David Griffiths i'r cyfarfod.***

c) **Ramp i'r traeth** ger llwybr y Crynwyr mewn cyflwr gwael – gadael i Gyngor Gwynedd wybod. **Gweithredu: DTB**.

d) **Cae Chwarae** – Archeb i'w anfon i brynu'r offer ffitrwydd i'r cae chwarae. GE i fod yn gyswllt ar gyfer y gwaith gosod.

**<u>Dyddiad y Cyfarfod Nesaf (Cyfarfod Blynyddol) - Nos Fercher - 11.05.22 am 7yh yn y Ganolfan, Llwyngwril</u>**

**Arwyddwyd gan y Cadeirydd …………………………………………………………………… Dyddiad ……………………………….**